

## Darpariaethau ychwanegol o dan adran 75(3)

### Cyflwyniad

1. Dylai'r adran hon gael ei darllen ar y cyd â Phenodau 14, 16 ac 17 o'r Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (Mawrth 2016), cyn cyhoeddi'r cod canllawiau newydd yn 2020.
2. Roedd Gorchymyn 2019 (Gorchymyn Cychwyn Rhif 10) Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cychwyn adran 75(3) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ar 2 Rhagfyr 2019.
3. Mae adran 75(3) yn sicrhau bod y categorïau canlynol o geiswyr yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer dyletswydd adran 75, hyd yn oed pan fydd awdurdod lleol yn fodlon eu bod wedi'u dyfarnu'n ddigartref yn fwriadol:
  - Menyw feichiog;
  - Person y mae plentyn dibynnol yn preswyllo gydag ef;
  - Person nad oedd wedi cyrraedd 21 oed pan wnaed y cais am gymorth;
  - Person sydd wedi cyrraedd 21 oed, ond nid 25 oed, pan wnaed y cais am gymorth, a oedd yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu ar unrhyw adeg pan oedd o dan 18 oed
4. Fodd bynnag, mae adran 75(3)(f)(i) yn cyfyngu'r ddarpariaeth honno. Felly, os bydd rhywun yn cael ei ddyfarnu'n ddigartref yn fwriadol ddwy waith mewn cyfnod o bum mlynedd, ni fyddai'n ddarostyngedig i ddyletswydd adran 75.

Mae'r Ddeddf yn datgan

### Canllawiau

5. Mae'r adran hon yn berthnasol os bydd awdurdod lleol wedi hysbysu Gweinidog eu bod yn rhoi ystyriaeth i fwriadoldeb a'r categorïau yn unig. Esbonnir hyn yn fanylach ym Mhennod 17. Nid oes angen rhoi hysbysiadau pellach i Lywodraeth Cymru.
6. Mae Pennod 16 yn darparu canllawiau ar gyfer terfynu dyletswydd adran 73 ac arfer dyletswydd adran 75. Mae'r darpariaethau o dan yr adran honno yn berthnasol os bydd rhywun yn cael ei asesu i fod ag angen blaenoriaethol yn unig.
7. Os bydd ceisydd yn bodloni categori angen blaenoriaethol AC yn dod o dan un o'r categorïau canlynol o bobl, bydd yn parhau i fod yn gymwys i gael cymorth o dan adran 75, hyd yn oed os bydd wedi'i ddyfarnu'n ddigartref yn fwriadol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf:
  - Menyw feichiog;

- Person y mae plentyn dibynnol yn preswyllo gydag ef;
- Person nad oedd wedi cyrraedd 21 oed pan wnaed y cais am gymorth;
- Person sydd wedi cyrraedd 21 oed, ond nid 25 oed, pan wnaed y cais am gymorth, a oedd yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu ar unrhyw adeg pan oedd o dan 18 oed

8. Mae'r ddeddfwriaeth yn anwybyddu bwriadoldeb hyd nes bod asesiad diwygiedig adran 62 yn ddyledus pan fydd adran 73 yn dod i ben. Os bydd rhywun yn parhau i dderbyn cymorth o ganlyniad i adran 75(3), rhaid i'r cymorth fod yn barhaus.

### **Terfyn amser o bum mlynedd**

9. Os bydd rhywun wedi'i ddyfarnu'n ddigartref yn fwriadol, mae'r cyfnod o bum mlynedd yn dechrau ar y dyddiad yr oeddent wedi derbyn hysbysiad bod dyletswydd o dan adran 75 yn ddyledus iddo.
10. Dyddiad y penderfyniad am fwriadoldeb yw dyddiad y llythyr sy'n rhoi gwybod i'r ceisydd ei fod wedi'i ddyfarnu'n ddigartref yn fwriadol.
11. Ni ddylai awdurdodau o dan unrhyw amgylchiadau ystyried gollwng adran 73 yn gynnar (drwy adran 74.3), yn gyfan gwbl er mwyn sicrhau y byddai ceisydd yn methu'r prawf pum mlynedd.

### **Hysbysiad**

12. Ceir canllawiau mewn perthynas â hysbysu ceiswyr ym Mhennod 15. Bydd angen i awdurdodau lleol ddeall os bydd ceisydd wedi cael llety yn unol â darpariaeth adran 75(3), yna dylai'r llythyr hysbysu sicrhau bod hynny'n cael ei nodi. Bydd methu â gwneud hynny'n golygu na ellir gorfodi'r terfyn amser o bum mlynedd.

### **Etifeddiaeth**

13. Nid oes unrhyw ystyriaethau etifeddol. Os bydd penderfyniad am fwriadoldeb wedi'i wneud cyn cychwyn adran 75(3) ar 2 Rhagfyr 2019, mae'r darpariaethau newydd yn berthnasol o hyd.